

# Gweithdy Cerdded

i Greu Delweddau â Sain

Gan Joan Jones



GLYNN VIVIAN

Oriel Gelf Glynn Vivian

Heol Alexandra

Abertawe

SA1 5DZ

01792 516900

[orielglynnvivian.org](http://orielglynnvivian.org)

Mae Oriel Gelf Glynn Vivian yn rhan o  
Ddinas a Sir Abertawe ac yn cael ei  
chefnogi gan grant o

Gyngor Celfyddydau Cymru.

[twitter.com @GlynnVivian](https://twitter.com/GlynnVivian)

[facebook.com GlynnVivian](https://facebook.com/GlynnVivian)

[instagram @glynnvivian](https://instagram.com/glynnvivian)

Glynn Vivian Art Gallery

Alexandra Road

Swansea

SA1 5DZ

01792 516900

[glynnviviangallery.org](http://glynnviviangallery.org)

Glynn Vivian Art Gallery is part of  
Swansea Council and is supported by a grant  
from the Arts Council of Wales.



## Cyflwyniad

Mae fy narn Gloomy Mayhill Walk yn ymateb i syniadau ysgrifennu a roddwyd i mi gan yr artist a'r awdur Laura Reeves. Gofynnodd i mi roi taith dywys bersonol iddi o ardal yn Abertawe, trwy arddull naratif. Yn syth roeddwn i'n gwybod ble roeddwn i am fynd â'r darlennydd. Gan fy mod i wedi tyfu lan ym Mayhill, ac wedi dychwelyd yno yn fy 30au, mae ardaloedd penodol yn y dirwedd leol sy'n llawn atgofion o fy magwraeth, ac mae nifer ohonynt yn boenus. Roedd yn brofiad cathartig iawn i fynd â'r darlennydd i leoedd na fydddech yn dewis mynd iddynt fel arfer; lleoedd rydw i hyd yn oed yn cael hi'n anodd ymweld â nhw hyd heddiw.

Mae cerdded yn ganolog i fy ngwaith. Os ydw i'n ceisio cael gafael ar syniad neu ddod o hyd i eiriau ar gyfer rhywbeth, fyddai'n cerdded. Trwy rythm cerdded rydw i'n gallu cyrraedd cyflwr hudol, myfyriol sydd, i mi, fel y gwrthwyneb i'r broses "meddwl". Rwy'n mynd ar daith i'r deyrnas delynegol, yn diffodd y meddwl ac yn gwranddo ar ddirgryniadau barddoniaeth. Dyma le rydw i'n teimlo rhyddhad. Yn y cyflwr hwn sy'n debyg i freuddwyd, rydw i'n gallu datrys fy meddyliau sy'n gwrthdaro.



Mae taith yr artist yn draddodiad cryf mewn arfer cyfoes, o Turner i arddull Situationist International. Creodd y sefyllfäwr Guy Debord, Situationist, syniad *dérive* (o'r Ffrangeg ar gyfer "crwydro"). Fel arfer, byddai cyfranogwyr yn mynd ar daith heb ei chynllunio trwy dirwedd benodol, fel arfer un trefol, gan adael disgwyliadau bob dydd gyda'r bwriad o sbarduno gwaith celf drwy archwiliad seicoddaearyddol. Roedd hyn yn gysylltiedig â'r syniad Ffrengig, *flâneur*, unigolyn sy'n crwydro'n hamddenol wrth arsylwi ar gymdeithas. Roedd Debord yn ystyried y *dérive* fel gweithred chwyldroadol ac yn rhan annatod o brosiect gwrth-gyfalafol Situationism.

Dan yr amgylchiadau presennol, mae ein teithiau (sydd bellach wedi'u rhagnodi gan y Llywodraeth) yn fwy gwerthfawr nag erioed. Er fy mod i'n cerdded yn gyson beth bynnag, dros yr wythnosau diwethaf mae fy nheithiau wedi cael eu trawsnewid. Rydw i'n arafu, ac yn sylwi ar bethau yn fwy nag y byddwn i fel arfer. Rwyf wastad wedi bod eisiau gwella fy nealltwriaeth o enwau coed, ac rydw i'n cymryd yr amser i wneud hynny nawr. Mae'r cyfnod hwn llawn gorbryder ac ansicrwydd ofnadwy. Rydw i'n ystyried y teithiau'n moddion i hynny, yn llwybr i ymwybyddiaeth ofalgar, gan fy arwain i ffwrdd o unrhyw syniadau poenus sydd yn fy mhen ac yn ôl at fyd natur, yr heulwen ddiweddar a'r aer iachach, neu i ryfeddod ein strydoedd bellach yn wag.

Dyluniais y gweithdy canlynol gyda'r bwriad o gynnwys rhai o syniadau'r *dérive* a thechnegau ymwybyddiaeth ofalgar a cherdded. Mae'n gyfle i adael y tŷ, edrych ar y byd o'ch cwmpas mewn ffordd sydd ychydig yn wahanol, gan archwilio ein tirwedd bresennol a chofnodi eich syniadau amdani.

Joan Jones

# Mae eich tasg yn un syml.

Bydd angen y canlynol arnoch:

- Ffôn clyfar *neu* gamera digidol
- Recordydd llais ar ffôn clyfar *neu* ddictaffon digidol



Tasg:

Dynodwch amser i fynd am dro di-dor am awr.

Ni ddylai fod unrhyw "bwrpas" i'ch taith gerdded. Dim cyrchfan.

Peidiwch â chynllunio'r daith hon na chreu amserlen. Anghofiwch am unrhyw ddisgwyliadau a byddwch yn barod i grwydro.

Wrth i chi gerdded, anadlwch yn ddwfn a cheisiwch gyrraedd cyflwr sylwgar. Talwch sylw i'r byd o'ch cwmpas a cheisiwch ymgolli'ch hun yn eich amgylchedd.



Ni ddylai unrhyw beth dynnu eich sylw ar y daith hon, megis iPods. Os ydych yn defnyddio ffôn clyfar fel eich teclyn, sicrhewch ei fod wedi'i ddistewi.

Wrth i chi ymgolli yn eich taith gerdded, gall golygfeydd penodol ymddangos i chi. Efallai y bydd pethau i'w gweld yn ymddangos o'ch blaen.

Pan fydd ysbrydoliaeth yn gafael ynoch, tynnwch lun.

Defnyddiwch eich teclyn i recordio'ch hun yn dweud 2-3 brawddeg am yr hyn rydych yn ei weld i gyd-fynd â'r llun. Ceisiwch wneud hynny'n gyflym a heb feddwl gormod amdano. Gallwch gael eich ysbrydoli gan y canlynol:

Beth ydych chi'n ei glywed wrth i chi dynnu'r llun?

Beth allwch chi ei aroglu?

Beth ydych chi'n ei deimlo yn eich corff?

Pa atgofion sy'n cael eu sbarduno gan yr olygfa?

Pa syniadau sy'n ymddangos o ganlyniad i'r hyn rydych yn ei weld?

Wrth gyflwyno'r llun a'r sain gyda'i gilydd, rydych yn ffurfio delwedd â sain.

Dylech greu uchafswm o 3-4 o ddelweddau â sain ar bob taith.

Gellir ailadrodd yr ymarfer hwn mor amlag yr hoffech chi.

Os oes angen cymorth arnoch ar eich taith, galwch wneud yr ymarfer gyda phartner.

Ceisiwch osgoi sgwrsio gymaint â phosib a hofiwch gadw pellter cymdeithasol diogel.

Hoffem glywed eich straeon *chi* a gweld yr holl deithiau rydych chi'n mynd arnynt o gwmpas eich ardal leol.

Archif esblygol o wahanol leisiau yw 'Straeon Abertawe, sy'n tynnu sylw at y naratifau personol a hanesyddol sy'n parhau i lunio'n dinas newidiol.

Os hoffech gyfrannu stori i'n cyfres o bodlediadau, neu os ydych yn adnabod rhywun fyddai'n mwynhau'r profiad hwn yn eich tyb chi, e-bostiwch ni yn [glynn.vivian@abertawe.gov.uk](mailto:glynn.vivian@abertawe.gov.uk)

Gallwch ein tagio ar gyfryngau cymdeithasol

@glynnvivan

#StraeonAbertawe





